

YN Y GEGIN

Crymbl melba eirin gwlanog cyflym

Cynhwysion:

- Tun 410g o eirin gwlanog wedi'u sleisio mewn surop
- 1 llwy fwrdd o fenyn
- 150g o fafon cochion
- 100ml o hufen chwipio
- ½ llwy fwrdd o siwgr eising
- 100g o granola

Byddwch hefyd angen:

- Sosban fach
- Dysgl gymysgu fawr
- Chwisg trydan



YN Y GEGIN - Crymbl melba eirin gwlanog cyflym

Dull:

- Rhowch yr eirin gwlanog (gyda'r surop) a'r menyn mewn sosban fach
- Codwch i fudferwi dros wres canolig
- Pan mae'r eirin gwlanog yn boeth, ychwanegwch y mafon cochion a'u cynhesu am 1-2 funud
- Tra mae'r ffrwythau'n mudferwi, chwipiwch yr hufen a'r siwgr eising mewn powlen nes mae'n creu pigau meddal
- Codwch y gymysgedd i bowlenni yn ofalus gyda llwy
- Taenwch ychydig o granola ar ei ben a'i orffen gyda llwyaid o hufen



RHYBUDD:

Mae'n bosibl y bydd y gymysgedd ffrwythau yn boeth wrth ei roi yn y powlenni!

